Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 24.10.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# CYLLID: Cynllun Benthyciadau Adfer

Mae iteriad newydd o'r Cynllun Benthyciadau Adfer (RLS), a gefnogir gan lywodraeth y DU, wedi ei gyhoeddi. Mae'r Cynllun wedi ei gynllunio i gefnogi mynediad at gyllid i fusnesau yn y DU wrth iddynt geisio buddsoddi a thyfu. Gall busnesau ddefnyddio'r cyllid at unrhyw ddiben busnes dilys – gan gynnwys rheoli llif arian, buddsoddiad a thwf. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://www.british-business-bank.co.uk/ourpartners/recovery-loan-scheme/

# CYMORTH: Cynllun Rhyddhad Bil Ynni – help i fusnesau a chwsmeriaid annomestig eraill

Bydd y Cynllun Rhyddhad Bil Ynni (EBRS) yn darparu rhyddhad bil ynni i gwsmeriaid annomestig ym Mhrydain Fawr. I ddechrau, rhoddir gostyngiadau ar ddefnydd ynni rhwng 1 Hydref 2022 a 31 Mawrth 2023, a bydd ar gael i bawb ar gontract annomestig. Gellir gweld y canllawiau ar:

https://bit.ly/3CYa5WQ

# ARIANNU: Cystadleuaeth benthyciadau arloesi economi'r dyfodol – Rownd 6

Mae Innovate UK yn cynnig hyd at £25 miliwn mewn benthyciadau i fentrau micro, a bach a chanolig eu maint (BBaCh). Mae benthyciadau ar gyfer prosiectau ymchwil a datblygu cyfnod hwyr hynod arloesol sydd â'r potensial gorau ar gyfer y dyfodol. Y dyddiad cau i wneud cais yw 9 Tachwedd 2022. Am fwy o wybodaeth, ac i ymgeisio, ewch i:

https://bit.ly/3TlFjy3

# IECHYD A DIOGELWCH: Rheoli trais sy'n gysylltiedig â gwaith mewn safle trwyddedig neu fanwerthu

Mae trais sy'n gysylltiedig â gwaith yn cael ei ddiffinio gan yr Awdurdod Iechyd a Diogelwch (HSE) fel unrhyw ddigwyddiad lle mae person yn cael ei gam-drin, ei fygwth neu'n dioddef ymosodiad mewn amgylchiadau sy'n ymwneud â'u gwaith, a gall gynnwys camdriniaeth, neu fygythiadau, geiriol yn ogystal ag ymosodiadau corfforol. Mae pecyn cymorth i helpu i leihau'r risg o drais sy'n gysylltiedig â gwaith mewn adeiladau trwyddedig neu fanwerthu i'w gweld ar wefan HSE ar:

https://www.hse.gov.uk/violence/toolkit/index.htm

## CYMORTH: Hwb o £6.4 miliwn i gyflogwyr gefnogi pobl anabl

Bydd gwasanaeth ar-lein newydd gwerth £6.4 miliwn, sydd wedi'i anelu at fusnesau llai, yn helpu cyflogwyr i wella eu cefnogaeth i bobl anabl, a'r rheini â chyflyrau iechyd, yn y gweithle. Bydd y gwasanaeth yn rhoi cyngor am ddim ar sut i reoli staff all fod mewn gwaith neu allan o waith gydag anabledd neu gyflwr iechyd hirdymor. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3TqBlnT

## DIGWYDDIAD: Cyfarfod Grŵp Trawsbleidiol – Atebion Cydweithredol i'r Argyfwng Costau Byw 26 Hydref 2022

Bydd y Grŵp Trawsbleidiol ar gyfer Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol yn cynnal cyfarfod rhithiol drafod yr argyfwng costau byw ac yr effaith byddai'n cael ar cwmnïau cydweithredol a grwpiau dan arweiniad y gymuned, ar 26 Hydref 2022 (12:00pm-1:30pm). Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3F91V0n

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

## Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru